



Gwybodaeth i Rieni Bl 5 a 6 - Tymor yr Hydref 2017

IAITH/ DYNIAETHAU -

Cymraeg - Adroddiad ar yr Almaen fodern gan edrych ar agweddau daearyddol, hanesyddol ac elfennau o rifedd a barddoniaeth ar y 'Blits'.
Saesneg - Creu araith yn trafod croesawu ffoaduriaid o wledydd ym mhle mae rhyfel gan edrych ar elfennau o addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol, dinasyddiaeth fyd-eang a rhifedd.

GWYDDONIAETH -

- Trydan—Edrych ar bosibiliadau o oleuo cuddfan Anderson.
- Grymoedd—Ymchwilio i'r amodau delfrydol ar gyfer glanio cerbyd ar draethau Normandy.

DARLLEN - Un o'r ffyrdd gorau y gallwch helpu eich plentyn i wneud yn dda yn yr ysgol ydy drwy ei annog i fwynhau darllen. Gall hyn olygu darllen cylchgronau, papur newydd, nofelau, comic, atlasau, a'r ŵe. Dewiswch destunau sydd wrth fodd eich plentyn. Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n mwynhau darllen yn gwneud yn well yn yr ysgol, ac mae gan rieni ran allweddol wrth helpu i ddatblygu'r cariad yma at ddarllen. Bydd gofyn i bob plentyn ddod a'u cofnod darllen i'r ysgol bob Dydd Gwener.

GWAITH CARTREF -

Gosodir gwaith cartref ar **ddydd Gwener** a dylid ei ddychwelyd erbyn y **dydd Mercher canlynol**.
Er bod eich plentyn yn mynd yn hŷn rydym yn gwerthfawrogi'r amser rydych yn ei roi efo'ch plentyn i'r gwaith cartref. Diolch am eich cefnogaeth.

Rhyfel a Heddwch

ADDYSG GORFFOROL

Hanner tymor 1:

Blwyddyn 6: Nofio

Blwyddyn 5: Uned o waith datrys problemau

Hanner tymor 2:

Blwyddyn 5: Nofio

Blwyddyn 6: Uned o waith datrys problemau

TECHNOLEG GWYBODAETH - Defnyddio amryw o raglenni er mwyn diwallu gofynion y Cwricwlwm o fewn yr holl bynciau gan gynnwys 'Explain Everything' a 'Garageband'.

DYLUNIO a THECHNOLEG a CHELF : Gweithgareddau thematig wedi eu selio ar yr 2il Ryfel Byd.

CERDDORIAETH - Cyfansoddi cerddoriaeth sydd yn efelychu'r Blits.

MATHEMATEG - Byddwn yn gweithredu sesiynau rhifedd drwy roi ffocws i strategaethau mathemateg pen, sgiliau ymchwiliol mathemategol a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd. Byddwn yn asesu'r disgyblion drwy ddefnyddio dulliau ymarferol megis y 'matiau mathemateg' a phroffion NFER. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar eich plentyn i ymarfer tablau llusoi yn gyson gartref.

ER GWYBODAETH (*Teithiau*)

Byddwn yn dosbarthu gwybodaeth yn ystod y tymor.

Hwyl ar y Traeth

Pantomeim— mwy o wybodaeth i ddilyn.